

# Cyngor Tref Criccieth

---

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWDYD NOS LUN 14 MEDI 2015  
YN SIAMBR Y CYNGOR, Y LLYFRGELL CRICCIETH.

---

## COPI DRAFFT

Gweddi Agoriadol.

.....  
Cymerwyd y Weddi agoriadol gan y Cyng. Eirwyn Williams.

Cof;- 0109/15 Presennol.

.....  
Cadeirydd Cyng. W A Evans  
Is Gadeirydd, Cyng. R Cadwalader  
Cyng. Sian Williams.  
Cyng. Wayne Roberts.  
Cyng. Dr E Tudor Jones  
Cyng. Phil Jones.  
Cyng. Eirwyn Williams.  
Cyng. R T Price.  
Cyng. Henry Jones.

.  
Cof;-0209/15 Ymddiheuriadau.

.....  
Cyng. Dafydd Lloyd  
Cyng. Elisabeth Regan  
Cyng. Elisabeth George.

Cof;-0309/15 Datgan Diddordeb.

.....  
Datganwyd diddordeb yn y cais cynllunio ar Cilan, Ffordd Caernarfon gan y Cyng. R T Price  
a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

Cof;-0409/15 Cadarnhau Cofnodion cyfarfod Mis Gorffennaf.

.....  
Cadarnhawyd cofnodion Mis Gorffennaf fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r  
gyfraith

Cof;-0509/15 Materion yn codi trwy ohebiaeth.

- .....
- a) Gwrthwynebiad i geisiadau Cynllunio.  
Gwelir copi o ddogfennau a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Gwynedd ar ddiwedd y  
cofnodion hyn.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth.

# Cyngor Tref Criccieth

---

- b) Cais cynllunio C13/1106/35/LL The Old Boat shed Criccieth  
Derbyniwyd ateb i ohebiaeth y Cyngor Tref oddi wrth Gyngor Gwynedd yn egluro bod nifer o ystyriaethau cynllunio perthnasol sydd angen ei asesu yn gyd-destun Polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol, yn ychwanegol ceir sylwadau sydd yn cefnogi, yn gwrthwynebu neu yn sylwadau cyffredinol sydd agne ei ystyried wrth ddelio a chais. Mae angen pwysu a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol sydd yn gwrthdaro, yna mae angen dod i benderfyniad neu argymhelliad y gellir ei gefnogi gyda rhesymeg a thystiolaeth gadarn sydd yn unol â chynllun datblygu unedol Gwynedd. Mae swyddogaeth y cynllunwyr yn un cymhleth ac anodd. Cadarnheir y rhoddwyd ystyriaeth i'r holl faterion cynllunio perthnasol wrth ddod i benderfyniad ar y cais.

PENDERFYNIAD;-derbyn yr wybodaeth

Cof;-0609/15 Ceisiadau Cynllunio.

- .....  
a) Cais C15/0847/35/LL  
Codi estyniad dau lawr cefn i annedd  
Cilan, ffordd Caernarfon.

PENDERFYNIAD. Yn unfrydol argymell caniatáu y cais.  
*(Bu i'r Cyng. R T Price ddartgan diddoreb yn y cynllun a gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth.*

*Ni chymerodd y Cyng. Eirwyn Williams yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd unrhyw ran yn y drafodaeth, na phleidleisio ar y cynllun)*

Cof;-0709/15 Darn tir gwyrdd ger y Stesion.

.....  
Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd yn hysbysu ei bod yn bwriadu gosod y tir i berchennog busnes yn y Stryd, bwriedir gwneud y tenant/trwyddedai yn gyfrifol am dorri'r gwair, ond nid am y coed sydd angen sylw mwy arbenigol, os yw'r Cyngor Tref yn anghydweld a hyn rhaid rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd ynghyd a rhesymau am hynny.

PENDERFYNIAD;-Daeth yr Aelodau i'r pendedrnfyniad y byddai'r Cyngor Tref yn fodlon cymryd y cyfrifoldeb am y darn tir yma. Yn amodol ar y telerau.

Cof;- 0809/15 Hysbysfwrdd y Cyngor.

.....  
Adroddwyd gan Aelod fod yr hysbysfwrdd angen sylw, ei gefn wedidechrau pydru.

PENDERFFYNIAD;- Anfon at gontractwr lleol i ofyn am bris i'w drwsio mewn rhyw fath o plastig tew a chryf.

# Cyngor Tref Criccieth

---

Cof;0909/15 Nadolig 2015.

Adroddwyd gan Aelod fod Noson agroed i roi'r golau Nadolig ymlaen i'w gynnal ar 3 Rhagfyr.

PENDERFYNIAD;;- Derbyn yr wybodaeth

Cof-1009/15 Gweitjhredu Gwrthgymdeithasol

Derbyniodd y Cyngor llythyr oddi wrth Aelod o'r cyhoedd yn cwyno am weithredu gwrthgymdeithasol yn ardal Queens Road a Stanley Road lle mae moduron yn cael ei difrodi, mae hyn wedi ail godi ei ben, bu'r un fath o broblem yn yr ardal rhywc3 - 4 blynedd yn ôl.Ar yr achlysur hwnnw fe ddaliodd yr Heddlu y drwgweithredwr.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth ond peidio gwneud dim ar hyn o bryd rhag ofn ymyrd ac ymholiadau'r Heddlu.Cysylltu ac anfonwr y llythyr i'w hysbysu o hyn.

Cof;- 1109/15 Ymddeoliad y Clerc

Cyflwynodd y Clerc ei ymddeoliad o'r swydd gan ofyn i'r Cyngor ei ollwng mor fuan a phosibl.

PENDERFYNIAD;- Diolchwyd i'r Clerc am ei wasanaeth am yr holl flynyddoedd a symudwyd ymlaen i geisio denu Clerc newydd trwy drefnu hysbyseb yn y papurau lleol ac ethol y Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac unrhyw ddau Aelod arall o'r Cyngor a fydd ar gael fel paenl penodi.

Cof;-1209/15 Derbyniadau.

£17,000-00 Ail hanner y presept.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth.

Cof;- 1309/15 Taliadau

£98.00 Cyllid y Wlad Gorffennaf	100963
£98.00 Cyllid y Wlad Awst	100965
£50.00 Cyngor Gwynedd – Rhent	100966
£439.99 Atkin Groundworks cynnal llwybrau	100967

PENDERFYNIAD.;Derbyn y wybodaeth a rhoi haqwl i'r Clerc dalu yr oll o'r biliau.-

Daeth y cyfarfod i ben am ;-8.00y.h

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref Nos Lun 12 Hydref 2015.

# Cyngor Tref Criccieth

---

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 2 Hydref 2015.

---